



Torri gwrychoedd:
atebion i 18 cwestiwn cyffredin



y goedwig hir
long forest

Torri gwrychoedd: atebion i 18 cwestiwn cyffredin

Paratowyd ar ran y Grŵp Llywio ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth ar gyfer Gwrychoedd a diweddarwyd yn 2018.

Bydd y llyfryn hwn yn cynorthwyo rheolwyr tir i wneud penderfyniadau ynghylch pa mor aml y dylid torri gwrychoedd. Hefyd, bydd yn helpu i wella dealltwriaeth y gymuned wledig ehangach ynghylch rheoli gwrychoedd. Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar ystyriaethau ymarferol a manteision amgylcheddol torri gwrychoedd bob dwy neu dair blynedd, yn hytrach na phob blwyddyn.

C 1. Mae newidiadau mewn rheolaeth ffermydd yn golygu y caiff gwrychoedd eu torri'n llai aml nawr. A yw hyn yn beth da neu'n beth drwg?

Mae dau reswm rhagorol dros beidio â thorri bob blwyddyn.

Y cyntaf yw bod y rhan fwyaf o'r blodau ar goed a llwyni yn cael eu cynhyrchu ar frigau sy'n flwydd oed. Mae torri blynyddol yn cael gwared ar y brigau hyn, felly ni ddaw blodau, nac aeron na chnau. Mae hyn yn cael effaith fawr

ar amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, o bryfed megis glöynnod byw a gwyfynod i adar megis bronfreithod (a chochion yr adain a sogieir yn arbennig), a mamaliaid megis pathewod. Dim ond planhigion dringo megis mieri a rhosod sy'n cynhyrchu cnydau da o ffrwythau mewn gwrychoedd sy'n cael eu torri bob blwyddyn.

Yr ail reswm yw bod gwrychoedd mwy o faint yn gallu cynnal mwy o fywyd gwyllt.



Gwrych wedi'i dorri ar un ochr yn unig.

Amcangyfrifir am bob blwyddyn y caiff gwrych ei adael heb ei dorri, bydd yn ennill dwy rywogaeth newydd o adar sy'n bridio; ac mae rhai pryfed megis y brithribin brown yn dodwy wyau ar dyfiant newydd yn unig. Os caiff y tyfiant newydd hwn ei dorri bob hydref neu aeaf, bydd yr wyau'n marw; dyma un rheswm pam mae'r brithribin brown mor brin erbyn hyn.





Eirin surion bach.

Ond mae rhai eithriadau. Mae petris, breision melyn a llwydfronnau yn dewis nythu mewn gwrychoedd isel, ac mae'n well gan adar megis cornchwiglod ac ebedyddion dirweddau agored. Dylid cadw gwrychoedd yn isel mewn mannau sy'n gartref i boblogaethau pwysig o'r adar hyn sydd ar drai.

C 2. Mae'n draddodiadol i dorri gwrychoedd bob blwyddyn. Pam ddylid newid?

Bu gan wrychoedd swyddogaethau gwahanol ar hyd yr oesoedd, megis nodi ffiniau, cadw anifeiliaid mewn caeau neu eu cadw allan, ac fel ffynonellau o goed tân. Heddiw, maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi fwyfwy fel cynefinoedd bywyd gwyllt a nodweddion tirwedd, ac mae hyn yn golygu newidiadau o ran eu rheoli.

Pan gyflwynwyd peiriannau ffustio mecanyddol ar gyfer torri gwrychoedd yng nghanol yr 20fed ganrif, y flaenoriaeth oedd cynhyrchu cymaint o fwyd â phosibl, a chynnal terfynau ar gyfer cadw stoc. Ni roddwyd llawer o ystyriaeth i'r amgylchedd. O dan y fath amgylchiadau, roedd torri blynyddol yn gywir.

Cyn i fecaneiddio ddod yn gyffredin, roedd torri gwrychoedd yn waith llafurus iawn, ac felly ychydig iawn o wrychoedd oedd yn cael eu torri bob blwyddyn. Erbyn hyn, gyda'r amgylchedd yn uchel ar yr agenda cyhoeddus a ffensys weiar yn gwneud i ffwrdd â'r angen am wrychoedd ar gyfer cadw stoc, mae torri llai aml yn briodol unwaith eto ar gyfer y rhan fwyaf o wrychoedd.

C 3. Pam mae'n rhaid torri gwrychoedd o gwbl?

Caiff gwrychoedd eu torri i'w rhwystro rhag tyfu allan i gaeau a lleihau'r tir sydd ar gael ar gyfer tyfu cnydau a phori. Hefyd caiff gwrychoedd eu torri i'w cadw'n drwchus a swmpus - mae hyn yn arbennig o bwysig mewn mannau lle cedwir da byw lle mae gwrychoedd yn dal i wasanaethu fel ffensys byw. Caiff tyfiant trwchus, swmpus ei ffafrio gan lawer o adar a bywyd gwyllt arall megis pathewod hefyd.

Yn ogystal, mae torri rheolaidd yn atal planhigion isel megis fioledau a briallu rhag cael eu cysgodi a'u colli.

C 4. A fydd torri fy ngwrych unwaith bob dwy neu dair blynedd yn cynyddu costau neu a fydd yn arbed arian? A oes modd i mi gael unrhyw gymorth ariannol?

Mae ymchwil wedi dangos bod torri gwrychoedd ar gylch dwy neu dair blynedd yn arbed ar gostau llafur a pheiriannau fel arfer. Lle mae gwrychoedd yn cynnwys rhywogaethau sy'n tyfu'n araf yn bennaf, megis drain gwynion, mae'r arbedion yn gallu bod mor fawr â 60 y cant. Hyd yn oed lle ceir rhywogaethau mwy cyflym eu tyfiant yn bennaf, megis ynn a helyg, mae arbedion yn dal yn debygol.

Mae gadael i wrychoedd dyfu i fyny ac allan yn golygu ei bod yn debygol

y bydd rhywfaint yn llai o gnydau'n cael eu cynhyrchu oherwydd cymryd tir neu gysgodi. Mae'n bosibl y gellir gosod hyn yn erbyn arbedion a gafwyd oherwydd llai o dorri, yn arbennig ar dir âr. Os yw colli cnydau yn bryder difrifol, gellir ystyried creu ymylon di-gnwd mewn caeau, neu dorri'r gwrychoedd ar ochrau gogleddol caeau yn unig.

Gall cymorth ariannol ar gyfer rheoli gwrychoedd ac ymylon caeau fod ar gael drwy gynlluniau Stiwardiaeth Amgylcheddol presennol Llywodraeth Cymru.



Plygu gwrychoedd ym mis Hydref.



C 5. A fydd torri fy ngwrych unwaith bob dwy neu dair blynedd yn unig yn ei niweidio?

O adael gwrych am fwy o amser cyn ei dorri, bydd y canghennau'n fwy trwchus, ac os defnyddir peiriant ffustio, bydd y blaenau a dorrwyd yn fwy cariog. Ond mae'r rhan fwyaf o blanhigion gwrychoedd yn gallu ymdopi â'r niwed hwn yn hynod o dda; ychydig iawn sy'n marw neu'n dioddef haint.

Bydd codi'r uchder torri ychydig bach bob tro, a defnyddio llif siapio neu beiriant ffustio miniog ar y cyflymder a argymhellir, yn lleihau'r niwed i ganghennau. (Pen torri a osodir ar dractor sy'n cynnwys rhes o lifiau crwn sy'n gallu torri'n lân drwy ddeunydd pren trwchus yw llif siapio.)

Golwg agos ar lif siapio.

C 6. A fydd torri'n llai aml yn golygu y bydd yn rhaid i mi blygu neu fondocio fy ngwrychoedd yn gynt?

Nid oes modd cadw unrhyw wrych yn edrych yr union yr un fath o flwyddyn i flwyddyn. Ymhen amser, mae'n anorford y bydd ei strwythur a'i gyflwr yn newid oherwydd ei fod yn cynnwys coed a llwyni ac mae eu tyfiant yn newid eu ffurf wrth iddynt aeddfedu. Yn hwyr neu'n hwyrach bydd rhaid plygu neu fondocio pob gwrych, os na chaniateir iddo droi'n rhes o goed. Bydd torri ond yn arafu'r broses hon. Yn y flwyddyn neu ddwy gyntaf ar ôl plannu, plygu neu fondocio gwrych newydd, mae'n bosibl ei bod yn syniad da i dorri bob blwyddyn er mwyn sicrhau datblygiad tyfiant ffluwchog yn isel yn y gwrych. Fel arall, nid oes unrhyw reswm pam y dylai



torri bob dwy neu dair blynedd leihau'r cyfnod o amser cyn y bydd angen plygu neu fondocio. Yn wir, mae'r dystiolaeth yn awgrymu i'r gwrthwyneb - yn achos gwrychoedd drain gwynion, mae torri bob ychydig o flynyddoedd yn hytrach na phob blwyddyn yn creu gwrychoedd mwy trwchus.

C 7. Sut allaf ymateb i gwynion bod gwrychoedd â thair blynedd o dyfiant yn edrych yn anniben, a bod eu torri'n creu llastr hyll?

Mae'n bosibl y bydd o gymorth i esbonio nad cynhyrchu bwyd yw unig ddiben ffermio modern, a'i fod yn ymwneud â chreu manteision amgylcheddol hefyd, megis creu cynefinoedd bywyd gwyllt a thirweddau deniadol. Rhowch wybod i'ch holwr eich bod yn dilyn cyngor y llywodraeth wrth reoli'ch gwrychoedd yn y modd hwn.

Gwrych wedi'i dorri ar ôl pum mlynedd o dyfiant.

Os gallwch chi, rhowch dystiolaeth ynghylch sut mae bywyd gwyllt lleol wedi ymateb - megis tynnu sylw at fwy o amrywiaeth a/neu fwy o niferoedd ymhlith adar. Mae'n bosibl y gallai hyn helpu i argyhoeddi pobl eich bod yn gwneud y peth cywir.

C 8. Onid yw ffustio gwrych aeddfed yn ddrwg iddo oherwydd bod hyn yn gadael cymaint o goesynnau wedi'u niweidio a'u chwalu?

Ar y cyfan, mae torri unwaith bob ychydig o flynyddoedd yn hytrach na phob blwyddyn yn well ar gyfer bywyd gwyllt, ac yn well i'r gwrych ei hun. Efallai y bydd blaenau brigau a dorrwyd yn edrych yn annymunol am gyfnod, ond mae'r manteision i fywyd gwyllt yn fwy o lawer na hyn.





Coch yr adain mewn gwrych o ddrain gwynion.

C 9. A fydd torri tyfiant tair blwydd oed yn niweidio fy mheiriant ffustio?

Cyn belled â bod eich pen torri a'ch peiriant ffustio wedi'u cynnal a chadw'n dda, a'ch bod yn defnyddio'r cyflymder rotor a'r cyflymder symud ymlaen cywir, ni ddylai fod unrhyw broblem. Ond rydych yn debygol o fod angen cymryd mwy o amser i dorri'r gwrych, gan symud yn ôl ac ymlaen drosto fwy o weithiau a chan ddefnyddio cyflymder symud ymlaen mwy araf.

Mae peiriannau ffustio safonol wedi'u

cynllunio i dorri tyfiant hyd at 38mm o drwch. Hyd yn oed mewn mannau ffrwythion, bydd brigau a changhennau drain gwynion, cyll a deri sy'n dair blwydd oed yn mesur rhwng 15 a 20mm o drwch yn unig. Felly bydd torri'r rhan fwyaf o dyfiant tair blwydd oed yn annhebygoi o achosi problem, hyd yn oed gyda defnydd maith.

Mae bosibl y bydd brigau rhywogaethau sy'n tyfu'n gyflym megis helyg ac ynn yn mesur 40mm o drwch neu fwy ar ôl tair blynedd, ac os felly bydd angen

defnyddio peiriannau ffustio gwaith trwm a phennau torri mwy pwerus. Mae peiriannau ffustio ar y farchnad sy'n gallu torri tyfiant gwrychoedd hyd at 100mm o drwch. Fel arall, gallwch ddefnyddio llif siapio (gweler C 5).

C 10. A fydd angen gwneud llawer o dacluso ar ôl torri gwrych sydd â dwy neu dair blynedd o dyfiant? Os defnyddir peiriant ffustio, ac os cymerir gofal, mae profiad yn dangos mai ychydig iawn o dacluso fydd ei angen fel arfer. Mae peiriannau ffustio'n torri brigau a changhennau yn ddarnau mân a bydd llawer o'r rhain yn disgyn i fôn y gwrych a phydru yno. Os yw'r brigau'n hir, mae'n bosibl y bydd angen mynd yn ôl ac ymlaen drostynt i'w torri ddwywaith yn hytrach nag unwaith,

ond fel arfer y peth gorau fyddai symud ymlaen yn fwy araf.

C 11. A fydd llawer o ddrain ar y llawr os caiff gwrych â nifer o flynyddoedd o dyfiant ei dorri yn ôl? A allai'r rhain achosi tyllau neu gloffni?

Mae hyd yn oed torri blynyddol yn gallu arwain at ddrain mewn caeau, neu ar lwybrau a ffyrdd, ond bydd mwy o broblem gyda thyfiant hŷn. Anami iawn yr achosir tyllau mewn olwynion cerbydau modur., ond mae perygl gwirioneddol i feiciau. Mae drain duon yn arbennig yn gallu achosi cloffni mewn da byw, felly mae'n ddoeth cadw stoc a beiciau i ffwrdd o wrychoedd a dorrwyd yn ddiweddar. Mae drain yn pydru'n weddol gyflym mewn tywydd gwlyb, ac ar hyd ffyrdd a llwybrau, bydd

Mae gwrychoedd yn rhoi lloches a chysgod gwerthfawr i dda byw ac maen nhw'n gallu helpu i gymedroli sychder neu lifogydd mewn caeau.



cerbydau modur yn eu malu'n fuan, felly bach iawn o berygl fydd fel arfer ar ôl ychydig wythnosau.

C 12. Pa adeg o'r flwyddyn ddylwn i dorri? Beth yw'r gyfraith, a sut allaf osgoi niweidio adar sy'n nythu?

Fel rheol gyffredinol, ceisiwch dorri'r rhan fwyaf o'ch gwrychoedd ym mis Ionawr neu fis Chwefror. Os yw cyflwr y tir a phatrymau cnydio yn gwneud hyn yn anodd, gallwch dorri mor hwyr ag y bo modd yn yr hydref. Mae torri yn y gaeaf yn golygu y bydd gan fywyd gwyllt ddigon o amser i fanteisio ar gnau ac aeron sy'n tyfu ar blanhigion gwrychoedd yn yr hydref. Dylid bob amser osgoi'r tymor bridio ar gyfer adar, sef 1 Mawrth i 31 Gorffennaf: bydd bron pob gwrych yn y wlad ag adar yn bridio ynddo yn ystod yr adeg hon. Mae rhai adar yn parhau i fridio ym mis Awst. Caiff pob aderyn gwyllt, eu cywion, eu hwyau a nythod byw eu gwarchod o dan y gyfraith. Mae'n drosedd i ddifrodi nyth yn fwriadol pan mae'n cael ei defnyddio neu ei hadeiladu – ac mae torri gwrychoedd yn debygol iawn o ddifrodi nythod neu achosi iddynt gael eu gadael.

I lawer o wyfynod a rhai glöynnod byw, mae torri ym mis Awst neu fis Medi yn well na thorri'n hwyrach – mwy na thebyg oherwydd bod torri yn y gaeaf yn cael gwared ar wyau a ddodwyd ar dyfiant newydd yn yr hydref.

Felly, os oes rhaid i chi dorri'r rhan fwyaf o'ch gwrychoedd mewn un flwyddyn benodol (ac ni argymhellir hyn), torrwrch rai ohonynt ym mis Awst neu fis Medi, gan adael y mwyafrif cyn hwyred ag y bo modd.

Pryd bynnag y mae perygl sylweddol i iechyd a diogelwch pobl, dylid torri gwrychoedd yn ôl yr angen i leihau'r perygl hwnnw.

Gweler C 18.

Mae'n amod yn rhai o gynlluniau Stiwardiaeth Amgrycheddol na ddylech dorri rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf, gyda rhai eithriadau penodol.

Ffawyddden ifanc mewn gwrych.



C 13. Pam mae ffermwyr yn torri eu gwrychoedd ar ddiwedd yr haf neu yn yr hydref yn hytrach nag aros tan y gaeaf, wedi i'r adar fwyta'r holl aeron?

Mae gwahanol resymau pam mae ffermwyr yn torri eu gwrychoedd cyn diwedd y gaeaf. Weithiau mae oherwydd bod y tir yn mynd yn rhy feddal ar gyfer tractorau yn y gaeaf, yn arbennig ar dir serth, a byddai'n beryglus eu defnyddio neu byddent yn cywasgu'r pridd. Mewn mannau â'r, yn aml mae oherwydd y byddai tractorau'n niweidio grawnfwydydd a heuir yn y gaeaf neu gnydau eraill - mae angen lled gweithio o tua 5m ar gyfer torri gwrychoedd o gwmpas y caeau hyn.

Yn achos rhai ffermwyr, mae oherwydd eu bod hwythau neu eu contractwyr ag amser yn rhydd yn yr hydref, rhwng y cyfnodau prysur o gynaeafu a hau yn y gaeaf, neu ofalu am wartheg dan do. Yn achos eraill, mae torri gwrychoedd ar ôl y cynhaeaf yn fater o draddodiad, yn rhan o'r cylch tymhorol sy'n nodweddiadol o ffordd o fyw'r ffermwr.

C 14. Beth ddylwn ei wneud os gwelaf wrych yn cael ei dorri yn ystod tymor nythu'r adar?

Efallai bod rheswm dilys dros dorri'r gwrych, er enghraifft er mwyn cynnal diogelwch ffordd. Os na, mae'n debygol bod y person sy'n gyfrifol heb fod yn ymwybodol o'r perygl i fywyd gwyllt, neu'r pryder y maen nhw'n ei achosi i eraill. Gyda hyn mewn golwg, y dull

gorau bron bob tro yw siarad â nhw, esbonio pam eich bod yn pryderu, a gwrandao ar eu rhesymau. Wedyn, os yw hynny'n briodol, gallwch esbonio'r gyfraith iddynt fel rydych chi'n ei deall a chyflwyno unrhyw ffeithiau perthnasol sydd gennych (megis presenoldeb nythod adar byw).

Mae'r dull hwn o weithredu'n debygol o arwain at ganlyniad gwell i chi, i reolwr y tir, ac i fywyd gwyllt. Mae bron bob amser yn well gwneud hyn yn hytrach na chysylltu â'r heddlu ar unwaith.

C 15. A ddylwn i dorri fy holl wrychoedd mewn un flwyddyn, neu dorri mewn cylch, gan docio cyfran yn unig bob blwyddyn?

Ceisiwch beidio â thorri eich holl wrychoedd mewn unrhyw un flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cynefin addas ar eich fferm bob amser ar gyfer bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar wrychoedd heb eu torri. Os yw eich fferm yn fach ac nid oes gennych lawer o wrychoedd, efallai y bydd yn bosibl i chi ddod i gytundeb â'ch cymdogion, fel y byddwch, gyda'ch gilydd, yn sicrhau y bydd gwrychoedd heb eu torri yn yr ardal bob amser.

C 16. A ddylwn i drin pob gwrych ar fy fferm yn yr un modd, neu a ddylwn amrywio?

Mae gwahanol fathau o fywyd gwyllt yn hoffi gwrychoedd o feintiau a ffurfiau gwahanol, felly ceisiwch greu



Tagiwyd y coed celyn ifanc hyn â thâp amlwg fel bod contractwyr torri gwrychoedd yn eu gadael heb eu torri. Mae'r Cyngor Coed yn gallu darparu tagiau argraffedig ar gyfer coed i hyrwyddo'r arfer hwn.

cymaint o amrywiaeth ag y bo modd. Yn gyffredinol, gwrychoedd mawr, trwchus sy'n cael eu torri'n anaml fyddai orau.

Fel rheol gyffredinol, mae gwrychoedd mwy llydan ac uwch yn cynnwys mwy o fywyd gwyllt, felly ceisiwch reoli'r rhan fwyaf o'ch gwrychoedd fel eu bod yn tyfu mor fawr ag y bo modd. Mae pathewod, er enghraifft, angen gwrychoedd mawr, o leiaf 4m o ran uchder os yw'n bosibl. Ond cadwch rai gwrychoedd yn isel (llai na 2m o ran uchder) ar gyfer adar megis breision melyn, llinosod, llwydfronnau a phetris, a lle mae rhydwy'r megis cornchwiglod, giachod a phibyddion coesgoch yn bridio ar dir cyfagos.

Mae amrywiaeth o ran ffurf gwrychoedd yn beth da hefyd. Mae'n bosibl bod gwrychoedd ar ffurf A yn addas ar gyfer yr amrywiaeth ehangaf

o adar sy'n bridio (er nad oes barn bendant ynghylch hyn ar hyn o bryd), ond mae'n bosibl bod gwrychoedd ar ffurf blwch (gyda bôn mwy cul na gwrychoedd ar ffurf A) yn well ar gyfer planhigion sy'n tyfu ar y ddaear neu ar glawdd.

Gadewch i rai gwrychoedd dyfu i fyny, gan ddod naill ai'n rhesi o goed, neu gyrraedd y cyflwr priodol ar gyfer eu plygu neu eu bondocio, neu eu torri yn ôl â llif siapio (gweler C 5). Bydd hyn yn ychwanegol amrywiaeth.

C 17. Pam nad yw ffermwyr neu berchenogion tir yn gadael mwy o goed ifanc i dyfu'n goed gwrych?

Mae coed gwrych yn rhoi cysgod a lloches werthfawr i dda byw, ond gall costau torri gwrychoedd gynyddu oherwydd yr amser a'r ymdrech ychwanegol sydd eu hangen i osgoi



coed sy'n tyfu mewn gwrychoedd. Hefyd maen nhw'n gallu taflu cysgodion ar gnydau a glaswellt, gan achosi colledion economaidd pellach. Mewn rhai achosion, bydd coeden mewn gwrych yn taflu cysgod dros yr holl blanhigion gwrych sydd o'i chwmpas, sy'n arwain at greu bylchau. Hefyd gall rhai coed fod angen triniaeth gostus i leihau eu perygl i gerbydau a phobl. Gall eraill rwystro peiriannau fferm a gwifrau ffôn a phŵer uwchben.

Mae'r ffaith bod cymaint o goed gwrych yn bodoli, a bod rhai newydd yn cael eu plannu neu eu gadael i dyfu, yn brawf bod llawer o ffermwyr yn barod i ofalu am yr amgylchedd. Yn aml, bydd cyllid i blannu gwrychoedd ac i ffensio ar gael drwy raglenni amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Mae gan Goed Cadw hefyd nifer o ffyrdd o gynorthwyo tîrfeddianwyr i blannu coed trwy gyfrwng ei gynlluniau cyllido ei hun, gan gynnwys gwrychoedd a choed gwrych. Cysylltwch â'i dîm Creu Coetiroedd er mwyn cael cymorth a chyngor gyda'ch prosiect plannu (0330 333 5303 neu woodlandtrust.org.uk/enquiry).

C 18. Beth ddylwn ei wneud ynghylch gwrychoedd wrth ymyl ffyrdd, a lle mae materion gwelededd a diogelwch yn berthnasol?

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i berchenogion a deiliaid tir docio unrhyw wrychoedd sydd wrth ymyl ffordd, llwybr troed, llwybr beiciau neu hawl dramwy gyhoeddus lle mae'r tyfiant yn atal taith, neu'n effeithio ar ddiogelwch, pobl sy'n defnyddio'r ffordd, gan gynnwys beicwyr a cherddwyr.

Hefyd dylid clirio'r malurion i ffwrdd ar ôl torri. Yn aml, bydd yn ddiogel i gyfyngu torri blynyddol neu dorri cynnar i fannau lle mae ymyl y ffordd yn gul, a chyffyrdd a mynedfeydd, ac ochr fewnol troeon. Hyd yn oed yn y manau hyn, fel arfer y cyfan sydd ei angen yw tocio'r ochr agosaf, gan adael y top a'r ochr bellaf i dyfu.

Os oes angen i chi dorri gwrych bob blwyddyn, ceisiwch osgoi torri'r glaswellt a phlanhigion eraill wrth y bôn bob amser, yn arbennig yn yr hydref. Yn lle hynny, torrwch y llystyfiant hwn unwaith bob dwy neu dair blynedd. Mae mwyafrif y pryfed a'r anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill sy'n byw mewn gwrychoedd yn treulio'r gaeaf ym môn y gwrych a byddant yn cael eu niweidio os caiff y llystyfiant isel hwn ei dorri.

Gellir lawrlwytho cynnwys y pecyn hwn o www.longforest.cymru/cy/hefyd.

Am ragor o gymorth neu gyngor cysylltwch â longforest@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus, gan weithio mewn partneriaeth â Choed Cadw, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sefydliad Esmée Fairbairn, wedi datblygu prosiect y Goedwig Hir. Ynghyd, byddwn yn gweithredu'n ymarferol – gan recriwtio miloedd o wirfoddolwyr i blannu 100,000 o goed a gwella tua 120,000m o wrychoedd yng Nghymru.

Mae'r gyfres hon o lyfrynau yn seiliedig ar y rhai mewn pecyn cynharach a gynhyrchwyd gan Hedgelink UK a Natural England. Rydym yn ddiolchgar am eu caniatâd caredig i atgynhyrchu eu deunydd yn y cyhoeddiad dwyieithog hwn, sydd wedi'i ddiweddarau a'i ddiwygio.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% gan ddefnyddio inciau llysiuol gan Symposium Print, Llandŵ, CF71 7PF info@symposiumprint.co.uk



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



**Funding raised by
The National Lottery**
and awarded by the Heritage Lottery Fund

**Cyllid a godwyd gan
Y Loteri Genedlaethol**
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri



y goedwig hir
long forest